

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Gweithdrefn Camarfer a Chamweinyddu

Cwmpas a Diben y Weithdrefn

Mae'r weithdrefn hon ar gyfer ein dysgwyr sydd wedi cofrestru ar raglenni neu gyrsiau, cymwysterau neu unedau a gymeradwywyd o fewn y DU, neu'r tu allan iddi, ac sydd ynghlwm â chamarfer posib neu honedig. Mae hefyd ar gyfer staff sydd ynghlwm â chamarfer posib neu honedig.

Mae'n amlinellu'r broses y mae'n rhaid i'r Coleg a'r dysgwyr ei dilyn wrth adrodd am achosion o gamarfer posib neu honedig, a'n cyfrifoldeb ni o ran delio gyda'r mathau hyn o achosion. Mae hefyd yn gosod y camau gweithredol rydym yn eu dilyn wrth adolygu'r achosion.

Cyfrifoldebau'r Coleg

Mae'n bwysig bod yr holl staff sy'n rheoli, asesu a sicrhau ansawdd ein cymwysterau yn gwbl ymwybodol o gynnwys y polisi, a bod gan y Coleg drefniadau ar waith i atal ac archwilio unrhyw achosion o gamarfer posib neu honedig.

Bydd y weithdrefn hon ar gael i'r holl staff perthnasol a'r holl ddysgwyr drwy hyfforddiant a chynefino. Bydd staff Ansawdd allweddol, megis Prif Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol (IQA) a Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol (IQAs), yn cwblhau hyfforddiant arbennig ar weithdrefnau eu sefydliadau dyfarnu perthnasol.

Ym mhob achos bydd y Coleg yn dilyn y canllawiau ar gamarfer gan y sefydliad dyfarnu perthnasol.

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 25

Diffiniadau o Gamarfer

Mae 'Camarfer', **sy'n cynnwys camweinyddu a diffyg cydymffurfio**, yn golygu unrhyw weithgaredd neu arfer sy'n mynd yn groes i reoliadau yn fwriadol, ac yn peryglu cywirdeb y broses asesu fewnol neu allanol a/neu ddilysrwydd tystysgrifau. Mae'n ymwneud ag unrhyw weithredoedd bwriadol, esgeulustod, diffygion neu arferion eraill sy'n peryglu, neu a allai beryglu:

- y broses asesu
- cywirdeb cymhwyster a reolir
- dilysrwydd canlyniad neu dystysgrif
- enw da a chredadwyaeth y Coleg

Gall camarfer gynnwys ystod o faterion, o fethu â chynnal cofnodion neu systemau priodol, i ffugio cofnodion yn fwriadol er mwyn hawlio tystysgrifau. Mae camarfer gan ddysgwr yn cynnwys llên-ladrad o waith cyhoeddedig, gwaith sydd heb ei gyhoeddi, neu unrhyw waith a gynhyrchir gan Ddeallusrwydd Artiffisial (AI). Mae hefyd yn cynnwys unrhyw weithgaredd neu arfer sy'n arwain at ddiffyg cydymffurfiaeth â rheoliadau a gofynion gweinyddol, yn ogystal â gwneud camgymeriadau parhaus neu waith gweinyddol gwael.

Mae **camweinyddu** yn cael ei ddiffinio fel unrhyw weithgaredd, arfer neu esgeulustod sy'n arwain at ganolfan neu ddysgwr yn methu â chydymffurfio â rheoliadau a gofynion gweinyddol. Er enghraifft, camgymeriadau parhaus neu weinyddiaeth wael sy'n arwain at ganolfan yn methu â chadw cofnodion priodol ar gyfer asesiadau dysgwr.

Mae **Deallusrwydd Artiffisial (AI)** yn cyfeirio at allu cyfrifiadur digidol neu robot a reolir gan gyfrifiadur i gyflawni tasgau sydd fel arfer yn cael eu cysylltu â bodau deallus, ac sy'n gallu cael eu defnyddio er mwyn datrys problemau. Mae technoleg AI ar gael i bawb, a gellir ei chyrchu'n rhwydd iawn drwy amrywiaeth o adnoddau rhad neu am ddim, a gellir eu defnyddio i ysgrifennu cynnwys yn seiliedig ar ddefnyddiwr yn mewnbynnu gwybodaeth a/neu gwestiynau sylfaenol. Mae angen i bolisiâu a gweithdrefnau gydnabod y gall defnyddio AI i gynhyrchu gwaith yn seiliedig ar fewnbynau'r defnyddiwr, ac ni fydd yn defnyddio gwaith o ffynhonnell arall sy'n

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 25

bodoli ar-lein. Felly mae hi'n anodd adnabod y math yma o lôn-ladrad drwy ddefnyddio gwiriwr llôn-ladrata confensiynol. Mae angen i'r Coleg gydnabod a gweithredu ar y wybodaeth hon wrth weithio i fynd i'r afael ar gamarfer a llôn-ladrad.

Dyma rai enghreifftiau o gamarfer:

- methu â gwneud gwaith asesu, cymedroli neu sicrhau ansawdd mewnol yn unol â gofynion y Coleg a gofynion y Sefydliad/au Dyfarnu
- methu'n fwriadol â glynu wrth weithdrefnau cofrestru ac ardystio dysgwyr y Coleg
- methu'n fwriadol â glynu'n barhaus wrth ofynion cymeradwyo cymwysterau a/neu ganolfan y Coleg, neu weithredoedd a neilltuir i'r ganolfan
- methu â chynnal cofnodion priodol y gellir eu harchwilio e.e. hawliadau ardystio a/neu ffugio tystiolaeth
- hawliad(au) ffug neu anghywir ar gyfer tystysgrifau
- cadw gwybodaeth yn fwriadol oddi wrthym ni, sy'n hanfodol ar gyfer cynnal cywirdeb, sicrhau ansawdd a safonau cymwysterau
- cyd-dwylo neu ganiatáu cyd-dwylo mewn arholiadau/asesiadau
- dysgwyr yn parhau i weithio at gwblhau cymhwyster ar ôl gwneud hawliadau ardystio
- cofrestriadau hwyr gan ddysgwyr (anaml a pharhaus)
- oedi afresymol o ran ymateb i geisiadau a/neu gyfathrebiadau gan y Coleg
- cadw gwybodaeth oddi wrthym ni, yn fwriadol neu drwy ei hepgor, sy'n ofynnol i ddiogelu'r Coleg
- llôn-ladrad gan ddysgwyr/staff – cyfeiriwch at y Gweithdrefnau Llôn-ladrad
- defnyddio AI er mwyn cynhyrchu gwaith mewn ymateb i ysgogiadau a chwestiynau. Mae unrhyw ddefnydd o AI sy'n golygu nad yw dysgwyr wedi arddangos eu cyrhaeddiad eu hunain yn annibynnol, yn debygol o'i ystyried fel camarfer os llofnodwyd datganiad o ddilysrwydd. Am ragor o arweiniad yn ymwneud ag AI, gweler Atodiad 1.
- copïo gwaith dysgwr arall (yn cynnwys defnyddio TGCh i wneud hynny).

Mae'n rhaid i ddysgwyr gyflwyno gwaith eu hunain yn unig ar gyfer asesiadau. Golyga hyn bod rhaid i'w gwaith terfynol bob amser fod yn eu geiriau hwy eu hunain, a hynny heb fod wedi aralleirio gwaith arall, megis adnodd AI. Hynny yw, mae'n rhaid i gynnwys eu gwaith adlewyrchu gwaith annibynnol y dysgwr. Disgwylir i ddysgwyr arddangos eu

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 25

gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau eu hunain, yn unol â gofynion eu cymhwyster, fel yr amlinellir ym manyleb y cymhwyster. Mae hyn yn cynnwys arddangos eu perfformiad mewn perthynas â'r amcanion asesu ar gyfer y pwnc sy'n berthnasol i'r cwestiwn/cwestiynau neu unrhyw dasgau eraill sydd angen eu cyflawni.

Mae defnyddio gwaith rhywun arall mewn unrhyw un o'r ffyrdd hyn, heb roi cydnabyddiaeth iddo, yn llên-ladrad ac yn achos o gamymddygiad a charmarfer academaidd. Weithiau, mae achosion o llên-ladrad yn anfwriadol o ganlyniad i sgiliau ymchwil gwael a diffyg dealltwriaeth o gonfensiynau cyfeirio. Weithiau, caiff ei wneud yn fwriadol. Yn y naill achos neu'r llall, nid yw llên-ladrad yn dderbyniol a dylid mynd i'r afael ag ef.

Gweithdrefnau Llên-ladrad neu Gamarfer - Dysgwyr?

Ar gyfer gwaith a gyflwynir ar gyfer asesiadau ffurfiol sy'n rhan o'r cymhwyster ac yn gysylltiedig ag ennill ardystiad, mae'r rheolau canlynol yn berthnasol:

Os **nad** yw'r dysgwr wedi llofnodi datganiad o ddilysrwydd, mae posib ymdrin â'r mater yn unol â'r **weithdrefn llên-ladrad**, ac ni fydd gofyn i'r Coleg adrodd y digwyddiad i'r sefydliad dyfarnu priodol.

Os caiff llên-ladrad ei ganfod neu ei amau gan y ganolfan, a bod y dysgwr wedi llofnodi datganiad o ddilysrwydd, yna bydd rhaid adrodd y digwyddiad i'r sefydliad dyfarnu priodol fel achos o **gamarfer**.

Y Broses ar gyfer Gwneud Honiad o Gamarfer:

- Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n adnabod neu'n cael gwybod am achosion posib neu honedig o gamarfer hysbysu'r Pennaeth Cynorthwyol, Ansawdd, Addysgu a Dysgu ar unwaith yn ysgrifenedig. Pryd bynnag sy'n bosib, mae'n rhaid i bob honiad gynnwys:
 - enw'r dysgwr, ei rif adnabod a'i rif cofrestru
 - enw a swydd yr aelod o staff - os ydyw'n rhan o'r achos.

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 25

- manylion y cwrs/cymhwyster yr effeithiwyd arno, neu natur y gwasanaeth yr effeithiwyd arno.
- natur y camarfer posib neu honedig, a manylion cysylltiedig
- Yna, bydd y Pennaeth Cynorthwyol, Ansawdd, Addysgu a Dysgu yn penodi swyddog archwilio, nad oes ganddo ddiddordeb personol yng nghanlyniad yr archwiliad, i wneud yr archwiliad cyntaf. Bydd hyn yn digwydd yn unol â rheoliadau'r sefydliad dyfarnu perthnasol.

Cyfrifoldeb am yr Archwiliad

- Yn unol â gofynion rheoliadol, bydd pob achos posib neu honedig o gamweinyddu yn cael ei archwilio'n syth gan y Pennaeth Cynorthwyol a/neu Bennaeth Ansawdd er mwyn sefydlu a oes camarfer wedi digwydd, a byddant yn dilyn y camau rhesymol i atal unrhyw effaith andwyol o ganlyniad i'r digwyddiad, fel y diffiniwyd gan y Cyd-gyngor Cymwysterau, Ofqual/Cymwysterau Cymru.
- Bydd y Coleg yn cydnabod bod honiad wedi'i gyrraedd gan unigolyn cyn pen 3 diwrnod gwaith, fel sy'n briodol.
- Bydd y Pennaeth Cynorthwyol a/neu'r Pennaeth Ansawdd yn gyfrifol am sicrhau bod yr archwiliad yn cael ei wneud ar unwaith, yn effeithiol, yn unol â'r gweithdrefnau a amlinellwyd gan y sefydliad dyfarnu, a bydd yn penodi aelod perthnasol o staff i arwain yr archwiliad, er mwyn sefydlu a oes camarfer neu gamweinyddu wedi digwydd ai peidio. Yna, bydd hyn yn cael ei adolygu, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol a dderbyniwyd, neu a gasglwyd gan y Coleg.

Hysbysu Parthion Perthnasol

- Hysbysir y sefydliadau dyfarnu perthnasol yn unol â'u gweithdrefnau.
- Yn unol â gweithdrefnau sefydliad dyfarnu, bydd y Pennaeth Cynorthwyol a/neu'r Pennaeth Ansawdd yn hysbysu'r awdurdodau rheoleiddio priodol os yw'r Coleg yn

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 25

credu bod camarfer wedi digwydd, a allai annilysu dyfarniad cymhwyster, neu os allai effeithio ar sefydliad dyfarnu arall.

- Os allai'r honiad effeithio ar sefydliad dyfarnu arall a'i ddarpariaeth, byddwn hefyd yn ei hysbysu yn unol â'r gofynion a'r rhwymedigaethau rheoleiddio a osodwyd gan y rheolydd, sef Ofqual/Cymwysterau Cymru. Os nad oes gennym fanylion y sefydliadau a allai gael eu heffeithio, byddwn yn gofyn i Ofqual/Cymwysterau Cymru ein helpu ni i adnabod y partïon perthnasol y dylid eu hysbysu.

Amserlenni Archwilio a'r Broses Grynhoi

- Bydd y Coleg yn ceisio gweithredu a datrys pob cam o'r archwiliad cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r honiad ddod i law.
- Prif egwyddor pob ymchwiliad yw cynnal archwiliadau yn deg, yn rhesymol ac yn gyfreithiol, a sicrhau bod yr holl dystiolaeth berthnasol yn cael ei hystyried yn ddiduedd. Drwy wneud hyn, bydd archwiliadau'n seiliedig ar yr amcanion canlynol:
 - Deall y ffeithiau sy'n gysylltiedig â honiadau er mwyn pennu a oes unrhyw anghysondebau wedi digwydd ai peidio
 - Adnabod achos yr anghysondebau, a phawb a oedd ynghlwm â nhw
 - Adnabod graddfa'r anghysondebau
 - Gwerthuso unrhyw weithred sydd wedi'i gwneud eisoes
 - Pennu a oes angen cymryd camau adferol er mwyn lleihau'r risg i ddysgwyr cofrestredig presennol, ac i warchod cywirdeb y Coleg a'r cymhwyster/au
 - Adnabod unrhyw batrymau neu dueddiadau niweidiol.
- Efallai y bydd yr archwiliad yn cynnwys cais am ragor o wybodaeth gan bartïon perthnasol a/neu gyfweiliadau gyda phersonél sydd ynghlwm â'r archwiliad. Felly, byddwn yn:
 - Sicrhau bod yr holl ddeunydd a gasglwyd fel rhan o archwiliad yn cael ei gadw'n ddiogel

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 25

- Os yw archwiliad yn arwain at annilysu tystysgrifau, erlyniad troseddol neu sifil, bydd yr holl gofnodion a dogfennaeth wreiddiol sy'n gysylltiedig â'r achos yn cael eu cadw nes bod yr achos ac unrhyw apeliadau wedi cael eu clywed, ac am bum mlynedd ar ôl hynny
- Disgwylir i'r holl bartïon gydweithredu'n llawn gyda ni, boed ydynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gysylltiedig â'r archwiliad.
- Rydym yn cadw'r hawl i gadw canlyniadau neu dystysgrifau dysgwr a/neu garfanau, boed hynny wrth gael hysbysiad am achos o gamarfer honedig neu wirioneddol a/neu ar unrhyw adeg yn ystod yr archwiliad.
- Os bydd aelod o staff y Coleg, neu Gydymaith y Coleg dan archwiliad, mae gennym yr hawl i'w wahardd, neu roi dyletswyddau eraill iddo, nes bod yr archwiliad wedi'i gwblhau, yn unol â'r Polisi AD.
- Drwy gydol yr archwiliad, bydd ein Pennaeth Cynorthwyol a/neu Bennaeth Ansawdd yn gyfrifol am oruchwylio gwaith y tîm archwilio, i sicrhau bod y broses gywir yn cael ei dilyn, bod y dystiolaeth briodol wedi'i chasglu a'i hadolygu, ac am gyd-drafod gyda pharfïon allanol perthnasol a'u diweddarau.

Adroddiad o'r Archwiliad

- Yn dilyn archwiliad, bydd y Pennaeth Cynorthwyol a/neu'r Pennaeth Ansawdd yn cynhyrchu adroddiad ar gyfer yr holl bartïon. Bydd y Coleg yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r parti perthnasol, a'r awdurdodau rheoliadol ac asiantaethau allanol eraill, fel sy'n ofynnol.
- Os mai trydydd parti/parti annibynnol a roddodd wybod i ni am achos posib neu honedig o gamarfer, bydd y Coleg hefyd yn rhannu'r canlyniad â nhw – fel arfer cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl gwneud ein penderfyniad – ac felly, mae gennym yr hawl i gadw rhai manylion rhag ofn y byddai datgelu'r wybodaeth honno yn tramgwyddo ein dyletswydd i gadw cyfrinachedd neu unrhyw ddyletswydd gyfreithiol arall.

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 25

- Os yw'n archwiliad mewnol yn erbyn aelod o staff y Coleg, rhennir yr adroddiad gyda'r rheolwyr mewnol perthnasol a'r adran AD. Bydd unrhyw benderfyniadau i ddechrau gweithdrefnau disgyblu yn cael eu gwneud yn unol â gweithdrefnau disgyblu'r Coleg.

Canlyniadau'r Archwiliad

- Os bydd archwiliad yn cadarnhau bod gamarfer wedi digwydd, byddwn yn ystyried y camau i'w cymryd er mwyn:
 - lleihau'r risg i onestrwydd ardystio nawr ac yn y dyfodol
 - cynnal hyder y cyhoedd yn narpariaeth a dyfarniad cymwysterau
 - annog eraill i beidio â chyflawni achos o gamarfer cyffelyb
 - sicrhau nad oes unrhyw beth wedi ei elwa o beryglu ein safonau.
- Gall y camau y byddwn yn eu cymryd gynnwys:
 - cyflwyno camau er mwyn mynd i'r afael â'r digwyddiad o gamarfer, a'i atal rhag digwydd eto
- Mewn achosion lle ystyrir bod tystysgrifau yn annilys, rhaid egluro i'r sefydliad dyfarnu perthnasol a'r awdurdodau rheoleiddio pam eu bod nhw'n annilys, ac unrhyw gamau y dylid eu cymryd ar gyfer ailasesu a/neu dynnu'r tystysgrifau yn ôl. Byddwn hefyd yn dweud wrth y dysgwyr sydd wedi cael eu heffeithio pa gamau rydym yn eu cymryd, ac nad yw eu tystysgrifau gwreiddiol yn ddilys, a phryd bynnag sy'n bosib, gofyn iddynt ddychwelyd y tystysgrifau annilys i'r Coleg
- rhannu ein canlyniadau gyda thrydydd partiön perthnasol (e.e. yr Adran Addysg a Sgiliau, Cyngor y Gweithlu Addysg), rhag ofn eu bod nhw angen cymryd camau priodol mewn perthynas â'r Ganolfan.
- Yn ychwanegol at yr uchod, bydd y Pennaeth Cynorthwyol, Ansawdd, Addysgu a Dysgu yn cofnodi unrhyw argymhellion sy'n codi o'r archwiliad, ac yn rhannu'r rhain gyda'r Llywodraethwyr a'r Bwrdd Safonau Ansawdd i helpu i atal yr un digwyddiad o gamarfer rhag digwydd eto.

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 25

Canllaw ar gyfer Deallusrwydd Artiffisial (AI) a Chamarfer/Llên-ladrad

O Weithdrefnau Llên-ladrad y Coleg

Deallusrwydd Artiffisial (AI)

Mae'n debyg fod adnabod y camddefnydd o AI gan ddysgwyr yn gofyn yr un sgiliau a thechnegau goruchwyllo y mae eu hathrawon eisoes yn eu defnyddio er mwyn sicrhau bod gwaith dysgwyr yn waith sy'n perthyn iddynt hwy hunain yn unig. Mae hefyd rhai adnoddau y gellir eu defnyddio.

Cymharu gyda gwaith blaenorol

Wrth gyflawni adolygiad o ddarn o waith penodol er mwyn gwirio ei ddilysrwydd, gall fod yn ddefnyddiol cymharu'r gwaith gyda darn o waith blaenorol a grëwyd gan y dysgwr. Pan mae'r darn o waith yn un ysgrifenedig, gallwch gofnodi'r nodweddion canlynol:

- Sillafu ac atalnodi
- Defnydd o ramadeg
- Arddull a thôn yr ysgrifen
- Geirfa
- Cymhlethdod a chysondeb
- Lefel y gwaith a'r ddealltwriaeth yn gyffredinol
- Y dull cynhyrchu (h.y. p'un a ydyw wedi ei ysgrifennu â llaw neu wedi ei deipio)

Gall athrawon ystyried cymharu gwaith sydd newydd ei gyflwyno gyda darnau eraill o waith a gynhyrchiwyd yn y dosbarth neu dan oruchwyliaeth.

Dangosyddion posib camddefnyddio AI

Os welwch y canlynol yng ngwaith dysgwyr, gall fod yn arwydd o gamddefnydd AI:

- Tuedd o ddefnyddio termau, sillafiadau, arian cyfred, neu gyfeiriadau diwylliannol Americanaidd eraill yn awtomatig.*

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 25

- Tuedd o ddefnyddio iaith neu eirfa sydd ddim o reidrwydd yn addas ar gyfer lefel y cymhwyster.*
- Diffyg dyfyniadau uniongyrchol a/neu gyfeiriadau, lle bod gofyn/disgwyl am hynny.~
- Pan fo'r gwaith yn cynnwys cyfeiriadau na ellir eu canfod na'u dilysu (mae rhai adnoddau AI yn creu cyfeiriadau ffug at lyfrau neu erthyglau gan awduron go iawn).
- Diffyg cyfeirio at ddigwyddiadau ar ôl dyddiad penodol (gan adlewyrchu pan grëwyd yr adnodd AI). Gall hyn fod yn amlwg iawn mewn rhai pynciau.
- Defnydd anghyson o bersbectif person cyntaf a thrydydd person pan na fydd y dysgwr wedi addasu'r testun.
- Gwahaniaeth rhwng arddull ysgrifenedig y gwaith a gwaith blaenorol a gynhyrchwyd yn y dosbarth neu yn narnau eraill o waith sydd wedi'u cyflwyno eisoes.
- Amrywiaeth yn y math o iaith a ddefnyddir mewn darn o waith, pan fydd dysgwr wedi defnyddio darn mawr o waith a gynhyrchiwyd gan AI ac wedyn yn ei addasu.
- Diffyg graffiau/tablau data/cymhorthion gweledol pan fyddai disgwyl iddynt gael eu defnyddio.
- Diffyg gwybodaeth bynciol fanwl neu wybodaeth leol benodol.
- Cynnwys o natur gyffredinol yn hytrach na chynnwys sy'n berthnasol i'r dysgwr ei hun, neu i dasg neu senario arbenigol, os yw hynny'n ofynnol neu os disgwylir hynny.
- Pan fydd y dysgwr, drwy gamgymeriad, yn cynnwys rhybuddion neu amodau a gynhyrchir gan y dechnoleg AI sy'n amlygu gallu a therfynau'r AI, neu natur ddamcaniaethol ei ymatebion.
- Pan fydd dysgwyr yn cyflwyno gwaith wedi'i deipio, pan maent fel arfer yn dewis cyflwyno gwaith yn ysgrifenedig.
- Pan fydd defnydd anarferol o sawl dadl glo yn y gwaith, neu fod strwythur traethawd cyfan yn cael ei ailadrodd sawl gwaith o fewn un traethawd estynedig, gan y gall ddangos bod AI wedi cynhyrchu'r traethawd sawl gwaith er mwyn ychwanegu manylder, amrywiaeth, neu er mwyn gweithio o amgylch cyfyngiadau allbwn yr adnodd AI.
- Pan fydd y gwaith yn cynnwys casgliadau sy'n amherthnasol i'r ddadl, neu'n cyflwyno datganiadau anghywir yn hyderus o fewn gwaith sydd fel arall yn gwneud perffaith synnwyr.

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 25

- Gwaith sydd wedi ei ysgrifennu mewn arddull hirwyntog neu sy'n gor-ddweud pethau, pan fo hynny'n anarferol yng ngwaith y dysgwr.

*Byddwch yn ymwybodol y gellir cyfarwyddo adnoddau AI i wneud defnydd o iaith/geirfa wahanol, neu i ysgrifennu mewn modd sy'n cyfleu lefel benodol o allu wrth gynhyrchu cynnwys.

~Fodd bynnag, mae rhai adnoddau AI yn cynhyrchu cyfeiriadau a dyfyniadau.

Teclynnau adnabod AI yn awtomatig

Mae modelau iaith eang megis sgwrsfotiau AI yn cynhyrchu cynnwys drwy 'ddyfalu' pa air sy'n debygol o ddod nesaf yn y gyfres. Golyga hyn bod cynnwys a gynhyrchir gan AI, yn wahanol i gynnwys a gynhyrchir gan bobl sy'n defnyddio amrywiaeth o eiriau wrth ysgrifennu, yn defnyddio'r cyfuniad mwyaf cyffredin o eiriau. Mae rhaglenni a gwasanaethau amrywiol ar gael sy'n gallu defnyddio'r gwahaniaeth hwn i ddadansoddi'n strategol cynnwys ysgrifenedig a phennu'r tebygrwydd bod darn o waith wedi ei gynhyrchu gan AI:

OpenAI Classifier (<https://openai.com/blog/new-ai-classifier-for-indicating-ai-written-text>)

GPTZero (<https://gptzero.me/>)

The Giant Language Model Test Room (GLTR) (<http://gltr.io/dist/>)

Fodd bynnag, dylid nodi bod y teclynnau uchod yn seilio eu sgoriau ar debygolrwydd geiriau, ac o ganlyniad, gall gwaith a gynhyrchiwyd gan AI ond sydd wedi ei addasu gan y dysgwr gael sgoriau is. Gall ansawdd y teclynnau hyn amrywio, ond bydd y dechnoleg adnabod AI yn parhau i ddatblygu dros amser. Dylid defnyddio teclynnau adnabod AI fel rhan o ddull holistaidd sy'n ystyried dilysrwydd gwaith dysgwyr; dylid ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael wrth gyflawni adolygiad yn ymwneud â phryderon camarfer.

Turnitin

Er mwyn gwirio bod dysgwyr yn gweithio mewn modd teg ac academiaidd briodol, mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn defnyddio meddalwedd cymharu testun er mwyn

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 25

canfod achosion posib o lôn-ladrad mewn gwaith mae dysgwyr AU a Mynediad yn ei gyflwyno. Y feddalwedd hon yw:

- Turnitin, sy'n cynnal archwiliad sy'n cyfateb i chwiliad ar y rhyngwrdd, yn chwilio am gymhariaeth rhwng y testun sydd wedi'i gynnwys mewn darn o waith a gyflwynwyd gan ddysgwr gyda phob math o wybodaeth ac adnoddau sydd ar gael i'r cyhoedd ar y rhyngwrdd. Defnyddir Turnitin i chwilio am achosion o gopïo uniongyrchol, ac/neu achosion o beidio â chyfeirio at wahanol fathau o ddeunyddiau ffynhonnell yn briodol. Gellir ei ddefnyddio hefyd i gymharu aseiniadau pob dysgwr â deunyddiau'r modiwl a chyfeiriadau eraill a ddarperir neu a ddefnyddir yn gyffredin. Cynhyrchir adroddiad 'gwreiddioldeb' ar gyfer pob aseiniad a gyflwynir i Turnitin, sy'n dangos canran y testun sy'n cyfateb i wefannau penodol.

Yn dibynnu ar y cwestiynau sy'n cael eu gofyn a fformat yr ateb a gyflwynwyd, disgwylir rhyw lefel o gymhariaeth rhwng sgriptiau a ffynonellau eraill. Er enghraifft, efallai eich bod wedi defnyddio gwybodaeth o safleoedd eraill a/neu bapurau gwyddonol fel dyfyniad uniongyrchol i gefnogi eich ateb neu i brofi pwynt penodol (gan sicrhau eich bod wedi cyfeirio at hyn yn y modd priodol a disgwyliedig). Yn yr un modd, mae'n debyg y byddwch yn defnyddio termau ac ymadroddion, y gellir eu disgrifio fel 'gwybodaeth gyffredin' o fewn eich maes pwnc penodol a'ch lefel astudiaeth, nad oes angen cyfeirio atynt, ond sy'n debygol o godi mewn fformat tebyg ar nifer o safleoedd ac atebion dysgwyr eraill.

Bydd fîm y cwrs yn ystyried pob mater o'r fath wrth adolygu'r adroddiadau gan Turnitin a phenderfynu a yw'r dysgwr wedi llên-lladrata. Os oes unrhyw bryderon:

- gall fîm y cwrs benderfynu bod angen rhagor o arweiniad neu gymorth ar rai dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu academiaidd; neu
- gall fîm y cwrs benderfynu bod yr hyn y mae'r adroddiadau'n ei ddangos yn fwy difrifol, ac os felly, byddant yn cyfeirio'r mater at y Pennaeth Cynorthwyol, Ansawdd, Addysgu a Dysgu, i'w ystyried.

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 25

Ar gyfer pob lefel arall, mae staff yn wylidwrus o lèn-ladrata ac yn defnyddio peiriannau chwilio ar-lein er mwyn gwirio gwaith. Mae cymedroli ar draws timau cwrs hefyd yn adnabod achosion o lèn-ladrad.

Yn fuan, bydd teclyn adnabod AI yn cael ei ychwanegu i Turnitin Originality (<https://www.turnitin.com/products/originality>). Mi fydd y teclyn hwn yn cynnwys adolygiad o waith y dysgwr gan AI, adolygiad o bortffolio tystiolaeth, ac yn ôl y deall, mi fydd hefyd yn nodi pa mor debygol yw'r defnydd o AI. Bydd posib defnyddio'r teclynau hyn er mwyn gwirio gwaith dysgwyr a/neu ddatrys unrhyw bryderon yn ymwneud â dilysrwydd gwaith dysgwyr.

Er mwyn osgoi llèn-ladrad wrth ddefnyddio AI:

- Os bydd dysgwr yn defnyddio adnodd AI sy'n darparu manylion am y ffynonellau a ddefnyddir i gynhyrchu cynnwys, dylai'r dysgwr wirio'r ffynonellau hyn a chyfeirio atynt yn y ffordd arferol.
- Pan na fydd yr adnodd AI yn darparu'r fath fanylion, dylai'r dysgwr sicrhau eu bod yn gwirio'r cynnwys a gynhyrchiwyd gan yr AI yn annibynnol, gan gyfeirio at y ffynonellau a ddefnyddiwyd.
- Yn ychwanegol, pan fydd dysgwr yn defnyddio AI, dylai gydnabod ei ddefnydd a dangos yn glir sut cafodd ei ddefnyddio. Mae hyn yn galluogi athrawon ac aseswyr i gyflawni adolygiad ynghylch y defnydd o AI, gan ystyried a oedd yn addas yng nghyd-destun yr aseiniad penodol hwnnw. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried nad yw cynnwys a gynhyrchiwyd gan AI yn destun i'r un lefel o archwiliad academaidd mewn cymhariaeth â ffynonellau cyhoeddedig eraill.
- Pan fydd adnoddau AI wedi eu defnyddio fel ffynonellau gwybodaeth, dylai'r dysgwr eu cydnabod drwy ddarparu enw'r adnodd AI a ddefnyddiwyd, ac arddangos y dyddiad pan gafodd y cynnwys ei gynhyrchu. Er enghraifft: ChatGPT 3.5 (<https://openai.com/blog/chatgpt/>), 25/01/2023. Mae'n rhaid i'r dysgwr gadw copi o'r cwestiwn/cwestiynau a ofynnwyd a'r cynnwys a gynhyrchiwyd gan gyfrifiadur mewn fformat na ellir ei addasu (megis sgrinlun), yn ogystal â disgrifiad byr o sut ddefnyddiwyd yr AI, er mwyn cyfeirio a dilysu. Mae'n rhaid i hyn gael ei gyflwyno gyda'r gwaith er mwyn i'r athro/aseswr allu cyflawni adolygiad o'r gwaith,

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 25

y cynnwys a gynhyrchir gan AI, a sut gafodd yr AI ei ddefnyddio. Pryd ni chaiff hyn ei gyflwyno gyda'r gwaith, ac mae'r athro/aseswr yn amau bod adnodd AI wedi ei ddefnyddio, bydd rhaid iddo weithredu yn unol â pholisi camarfer y ganolfan er mwyn sicrhau bod y gwaith a gyflwynwyd yn perthyn i'r dysgwr ei hun.

Mae'r Cyd-gyngor Cymwysterau yn argymhell y dylai colegau weithredu'r mesurau canlynol er mwyn atal camddefnyddio AI, a dylid adolygu'r mesurau yn achlysurol:

- Ystyried cyfyngu mynediad at adnoddau AI ar-lein ar ddyfeisiau a rhwydweithiau'r ganolfan.
- Sicrhau bod mynediad at adnoddau AI ar-lein wedi ei gyfyngu ar ddyfeisiau'r ganolfan a ddefnyddir ar gyfer arholiadau.
- Gosod dyddiadau cyflwyno rhesymol ar gyfer gwaith, gan atgoffa dysgwyr ohonynt.
- Lle'n briodol, gellir darparu amser yn y dosbarth ar gyfer cwblhau rhannau o waith dan oruchwyliaeth yr athro, gan alluogi'r athro i wirio a dilysu gwaith terfynol y dysgwyr yn hyderus.
- Gwirio gwaith y dysgwr yn ystod camau gwahanol o'i gynhyrchu er mwyn sicrhau bod gwaith yn cael ei gwblhau fel y cynlluniwyd ac mewn modd amserol, a bod y gwaith yn arddangos datblygiad naturiol o un cam i'r llall.
- Cyflwyno gweithgareddau yn y dosbarth sy'n gwneud defnydd o'r wybodaeth/dealltwriaeth a enillwyd yn ystod y cwrs, gan roi sicrwydd i'r athro bod y dysgwyr yn deall y gwaith.
- Ystyriwch a fyddai'n briodol ac o gymorth i'r dysgwyr pe baech yn cael sgwrs fer ynglŷn â'i waith er mwyn canfod a ydyw'n ei ddeall, ac a yw'r hyn mae'n ei gynhyrchu yn cynrychioli ei waith annibynnol ei hun.
- Peidiwch â derbyn gwaith, heb ragor o archwilio, pan mae aelod o staff yn amau ei fod wedi'i gynhyrchu gan adnodd AI, heb gydnabyddiaeth briodol, neu waith sy'n cynnwys llên-ladrata ar ffurf arall - mae derbyn gwaith o'r fath yn annog lledaeniad o'r arfer hon, ac mae'n debygol o fod yn achos o gamarfer staff, a gall hyn arwain at gosbau.
- Gosod tasgau ar gyfer aseiniadau a gynlluniwyd gan y ganolfan, sydd yn amserol, cyfredol a phenodol, ac yn gofyn i'r dysgwyr greu cynnwys sy'n annhebygol o fod yn hygyrch i fodelau AI sy'n gweithredu drwy ddefnyddio data hanesyddol.

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 25

Polisiau Cysylltiedig

- Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Polisi Ansawdd
- Polisi Cwynion a Chanmolïaeth
- Polisi Llên-ladrad
- Polisi Chwythu'r Chwiban

Gweithdrefnau Cysylltiedig

- Gweithdrefn Asesu ac Apelio
- Gweithdrefn Gwyno
- Gweithdrefn Sicrhau Ansawdd Mewnol (IQA)
- Gweithdrefn Chwythu'r chwiban

Lleoliad y Weithdrefn a Mynediad Ati

Mae'r polisi hwn ar gael ar wefan y coleg ac efallai na fydd yn gyfredol os caiff ei argraffu.

Dyddiad cymeradwyo:	15 Ebrill 2016
Cymeradwywyd gan:	Bwrdd Safonau
Dyddiad adolygu:	1 Gorffennaf 2025

Rheolwr sy'n Gyfrifol:	Pennaeth Cynorthwyol, Ansawdd, Addysgu a Dysgu
Arweinydd Gweithredol:	Is-bennaeth, Taith y Dysgwyr ac Ansawdd
Hygyrch i Fyfyrrwyr:	Ydy

Rhif Adolygiad:	5
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Gorffennaf 23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Gorffennaf 25